



*Gofynnwch am:*

*Ffôn:*

*E-Bost:*

*Ein Cyf:*

*Eich Cyf:*

*Dyddiad:*

9 Gorffennaf 2020

### Annwyl Rieni / Warcheidiaid

Gwyddom fod y misoedd diwethaf wedi bod yn anodd i ddysgwyr, gyda llawer yn pryderu am golli dysgu a methu â gweld eu ffrindiau. Dyna pam yr ydym yn croesawu cynllun y Gweinidog Addysg a fydd yn galluogi'r awdurdod lleol i baratoi ar gyfer ailagor ysgolion sydd yn gallu i wneud hynny yn ddiogel o wythnos gyntaf mis Medi ymlaen, gyda phob ysgol yn dychwelyd yr wythnos ganlynol.

Ar y cychwyn, rydym am rannu cymaint o wybodaeth â phosibl gyda chi i ddeall y trefniadau a fydd ar waith o fis Medi ymlaen.

Cynhelir diwrnodau cynllunio a pharatoi ar ddechrau'r tymor i adolygu asesiadau risg, prosesau a systemau i sicrhau y gall ysgolion unigol groesawu disgyblion yn ôl yn ddiogel.

Efallai y bydd angen rhoi blaenoriaeth i rai grwpiau penodol o ddysgwyr yn ystod wythnos gyntaf y tymor, fel blynyddoedd 7, 11, 12, 13 a chyfleusterau addysgu arbennig (STFs) ar gyfer ysgolion uwchradd a'r blynyddoedd cynnar, blwyddyn 6 a'r STFs yn yr ysgolion cynradd.

Dylai rhieni ddisgwyl cael gwybodaeth fwy penodol gan eu hysgol a'r awdurdod lleol wrth iddo ddod ar gael.

O ystyried yr amgylchiadau eithriadol presennol, rydym yn gwybod bod staff sy'n gweithio'n galed mewn ysgolion, dysgwyr a'u teuluoedd yn gallu bod o dan bwysau emosïynol, ariannol a seicolegol ychwanegol. Mae'r awdurdod lleol yn parhau i weithio'n agos gydag ysgolion a lleoliadau i ystyried y ffordd orau o gefnogi anghenion lles parhaus pob dysgwr ar yr adeg hon.

O'r ail wythnos o dymor bydd presenoldeb yn yr ysgol yn orfodol. Gofynnir i rieni gysylltu â'u hysgol os nad yw disgybl yn gallu mynychu am unrhyw reswm cyfreithlon.

Bydd ailddechrau addysg hefyd yn golygu y bydd y ddarpariaeth gofal plant frys ar gyfer gweithwyr allweddol yn dod i ben.



Bydd gan bob ysgol heriau lleol i fynd i'r afael â hwy, gan gynnwys y staff sydd ar gael. Mae gwaith ar y gweill gyda chydweithwyr i gadarnhau trefniadau cludiant i'r ysgol. Bydd yr awdurdod lleol ac ysgolion yn gweithio'n agos i oresgyn a datrys materion o'r fath. Cadwch lygad ar wefan yr awdurdod lleol [www.abertawe.gov.uk](http://www.abertawe.gov.uk) a fydd yn cael ei diweddarau gyda gwybodaeth bellach cyn gynted ag y bydd ar gael.

Rydym yn cydnabod bod ailagor ysgolion yn yr hinsawdd bresennol yn heriol. Mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn ymrwymedig i weithio gyda'i gilydd i sicrhau y gall dysgwyr barhau i ddysgu'n ddiogel. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi neilltuo £ 28m i helpu ysgolion i adfer.

Yn olaf, hoffem ddiolch i chi. Mae'r misoedd diwethaf hyn wedi rhoi straen ychwanegol ar bawb, ond yn enwedig i rieni a gwarcheidiaid sydd wedi gorfod addasu'n gyflym i addysgu eu plant gartref ar adeg sydd eisoes yn heriol iawn. Rydym yn gobeithio y bydd y llythyr hwn o ddefnydd i chi. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau, cysylltwch â'ch ysgol.

Cofion

*N. S. Williams*

Nick Williams  
Cyfarwyddwr Addysg